Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant

**CAFCASS Cymru a'r Llysoedd Teulu**

**Noddwyd gan Mark Isherwood AC a Bethan Sayed AC**
**10 Gorffennaf 2019**
**Tŷ Hywel**

***Yn bresennol:***
*Bethan Altman, CAFCASS Cymru*
*Glynis James, CAFCASS Cymru*
*Nigel Brown, CAFCASS Cymru*
*Katie, SEEdS*
*Gauri Taylor-Nayar, SEEdS*
*Rachel Williams*
*Mark Isherwood AC, Cyd-gadeirydd*
*Bethan Sayed AC, Cyd-gadeirydd*
*Sioned Jones, Plaid Cymru*
*Nicola Fitzpatrick, Llamau*
*Alison Hulmnes, BASW Cymru*
*Dr Julie Doughty, Prifysgol Caerdydd*
*Helen Mary Jones AC*
*Helen Gordon, Tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent*
*Julie Richards, SEEdS*
*Cartref Amy, SEEdS*
*Eleanor Donnelly, Hafan Cymru*
*Tina Reece, Cymorth i Ferched Cymru*
*Elinor Crouch-Puzey, Cymorth i Ferched Cymru*
*Becky James, Cymorth i Ferched Cymru*
*Veronica D'errico, Cymorth i Ferched Cymru*

***Ymddiheuriadau:***
*Gwyneth Williams, Gorwel*
*Dr Sue Whitcombe*
*Vicky Snook, Gwasanaethau Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin*
*Helen Jones - Atal y Fro*
*Gaynor Edwards, Atal Y Fro*
*Adam Price AC, Plaid Cymru*
*Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol*
*Llyr Gruffydd AC, Plaid Cymru*

| **Cofnodion** |
|---|
| Agorodd y Cadeirydd, Mark Isherwood AC, y cyfarfod a chroesawu'r mynychwyr, ac yna cyflwynodd Tina Reece y cefndir ar gyfer y cyfarfod, gan egluro bod CAFCASS Cymru a diwygiadau'r Llys Teulu yn faes blaenoriaeth uchel ar gyfer Cymorth i Ferched Cymru. Diolchodd |

i CAFCASS Cymru am ddod ac am y darn pwysig hwn o waith.

**Siaradwyr:**

**Cafcass Cymru - Bethan Altman**

Esboniodd Bethan fod y gwaith i lywio'r Canllawiau Cam-drin Domestig ar gyfer ymarferwyr Cafcass Cymru wedi'i ddylanwadu i ddechrau gan adroddiad 'Ydych chi'n gwrando, ydw i'n cael fy nghlywed'. Rhoddodd hyn ddarlun clir o ba mor heriol yw’r profiad o gyfiawnder teuluol i oroeswyr a'u plant.

Er ei bod yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud eto o ran cynorthwyo teuluoedd yn gynharach, roedd hi'n teimlo, gyda'r arweiniad hwn, y bydd buddiannau'r plant yn ganolog i’r gwaith wrth symud ymlaen. Mae'r canllawiau wedi'u datblygu ar y cyd â lleisiau goroeswyr. Mae'n gobeithio y bydd y papur yn gwneud i ymarferwyr ganolbwyntio ar effaith cam-drin domestig ar blant, gan gynnwys fframwaith cadarn i'w galluogi i asesu risg.

Esboniodd Bethan hefyd nad yw’r canllawiau ar gyfer oedran penodol, yn yr ystyr y gellir eu defnyddio gyda phlant o unrhyw oedran, a bod dadansoddiad ac asesiad yn cael ei wneud drwy gysylltu ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn i gael darlun o'r hyn sydd ei angen.

Mae'r ddogfen hefyd yn glir bod angen i ymarferwyr ddeall pam y gallai plant fod yn gwrthwynebu ac yn gwrthod cyswllt, gan wneud y pwynt bod y canllaw ymarfer hwn yn cael ei gefnogi gan ddwy ddogfen canllaw ymarfer arall; mae un ar gyfer Gwrthdaro Niweidiol ac un ar gyfer Plant yn Gwrthwynebu neu'n Gwrthod Treulio Amser Gyda Rhiant. Mae Cafcass Cymru wedi sicrhau bod y canllawiau ymarfer yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth bwrpasol yng Nghymru ac wedi dangos ei ymrwymiad i flaenoriaethu cam-drin domestig a sut mae'n diwallu anghenion plant.

Mewn ymateb i gwestiynau, eglurodd Bethan fod gwahaniaeth rhwng Cafcass Cymru a Cafcass yn Lloegr, yn yr ystyr bod y ddau sefydliad yn endidau gwahanol. Mae Cafcass yn Lloegr wedi dewis cynhyrchu llwybrau ymarfer ac wedi siarad yn gyhoeddus ar y pwnc dieithrio rhwng rhieni a phlant. Comisiynodd Cafcass Cymru adolygiad llenyddiaeth o'r dystiolaeth sy’n ymwneud â’r pwnc a llunio ei ganllaw ymarfer o amgylch hynny.
O ran y term ‘dieithrio rhwng rhieni a phlant’, cadarnhaodd Bethan nad oedd Cafcass Cymru yn ei ddefnyddio, ac yn lle hynny bydd mwy o ddull cyfannol wrth symud ymlaen, gan osgoi neidio i dybiaethau. Bydd yna hefyd ganllaw ymarfer i helpu ymarferwyr i fynd i’r afael â pham y gallai plant fod yn gwrthwynebu cyswllt, a fydd yn eistedd ochr yn ochr â'r canllawiau cam-drin domestig ac yn cydnabod y ddeinameg hon.

Tynnodd y cyd-gadeirydd, Bethan Sayed AC, sylw at y pryder bod grwpiau yng Nghymru yn

mynd ar drywydd dieithrio rhwng plant a rhieni. Cadarnhaodd Bethan Altman eu bod yn ymwybodol o hyn. Maent yn gweithio o fan cychwyn diogelu a phryderon ynghylch cam-drin domestig fel rheswm pam bod plant yn gwrthwynebu cyswllt.

Cymerodd Bethan Sayed AC drosodd i gadeirio'r cyfarfod ar y pwynt hwn a chyflwynodd y siaradwr nesaf;

**Stori Goroeswr**

'… drwy orfodi fy mhlant i fynd i weld eu tad, bydd y boen a achosodd i ni yn aros gyda mi am byth. Ni welodd y llys erioed hyn fel cam-drin domestig, yn hytrach cefais fy ngweld fel un a oedd yn dieithrio, a chadarnhawyd hyn gan y llys.

'Helpu i lywio'r canllawiau oedd y profiad mwyaf cadarnhaol o hyn i gyd ac mae gen i obeithion mawr amdano. Roeddwn yn nerfus ynghylch gwneud pwyntiau yn y cyfarfod cyntaf ac y byddai eraill yn ymateb yn amddiffynnol iddynt, ond roedd pawb yn gadarnhaol ac yn barod i dderbyn. Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy nghefnogi a bod eraill yn fy neall.

'Fy mhrofiad cyntaf o'r llysoedd teulu oedd y cyfryngwr yn fy ngadael ar fy mhen fy hun gydag ef, a ganiataodd iddo fy nychryn. Anwybyddwyd y rheolaeth drwy orfodaeth yn y llysoedd--doedd ganddynt ond diddordeb mewn tystiolaeth. Fi oedd unig yr eiriolwr dros fy mhlant, ond fe'm cynghorwyd i beidio â sôn am gam-drin domestig. Hoffwn pe bai’r canllawiau wedi bod ar gael bryd hynny.

'Dylai plant gael eu hystyried yn ganolog i hyn. Rwy'n gobeithio gweld hyn yn y canllawiau newydd. Nid oedd fy mhlant yn profi cam-drin anuniongyrchol.

'Sut oedd yr angen am gyswllt yn diystyru'r angen i'r plant gael eu cadw'n ddiogel? Ni ofynnodd y llys i CAFCASS Cymru ymchwilio i’r 18 tro cyntaf i ni fynd i'r llys. Nid oedd cam-drin hanesyddol na cham-drin yn ar ôl gwahanu mor bwysig â’r pryder ynghylch dieithrio rhwng plant a rhieni.

'Mae ofni’r llysoedd teulu yn ymledu i asiantaethau eraill. Nid oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn fy nghefnogi yn y llys, er iddynt ddweud wrthyf am roi'r gorau i gyswllt er mwyn amddiffyn y plant. Rydych mewn perygl o golli'r plant os na fyddwch yn dilyn y gorchymyn llys, ond rydych mewn perygl o golli'r plant os na fyddwch yn dilyn y gwasanaethau cymdeithasol'.

**Rachel Williams - Fy Ymgyrch**

Rhoddodd Rachel yn newyddion diweddaraf am ei hymgyrch yn ymwneud â'r llysoedd teulu. Mae hi'n poeni ynghylch y troseddwyr sy'n defnyddio'r llysoedd teulu ac nad yw barnwyr ar hyn

| |
|---|
| o bryd yn gwneud digon i'w dwyn i gyfrif. Mae'n teimlo bod hyfforddiant yn hanfodol.<br><br>Mae dieithrio rhwng plant a rhieni yn parhau i fod yn broblem fawr, ac mae hi ac ymgyrchwyr eraill wedi casglu nifer o enghreifftiau o'r term hwn yn parhau i gael ei defnyddio.<br><br>Mae hi'n croesawu'r arweiniad gan CAFCASS Cymru ac mae'n falch eu bod wedi ymgysylltu â Chymorth Menywod Cymru a goroeswyr wrth baratoi'r canllawiau, ond mae'n cytuno bod cryn dipyn i'w wneud eto.<br><br>**Tina Reece, Cymorth i Fenywod Cymru**<br><br>Dechreuodd Tina drwy dynnu sylw at y ffaith bod Cymorth i Fenywod Cymru yn lobïo ynghylch peryglon defnyddio'r term dieithrio rhwng plant a rhieni, ac maent wrthi'n trafod gyda'r NSPCC a Chomisiynydd Plant Cymru i fynd i'r afael â hyn.<br><br>O ran y canllawiau, mae Cymorth i Fenywod Cymru yn croesawu cydnabod rheolaeth drwy orfodaeth o fewn y canllawiau. Mewn grwpiau ffocws gyda goroeswyr mae hyn wedi bod yn uchel ar eu rhestrau blaenoriaeth yn ogystal â'r angen am gefnogaeth arbenigol i blant a phobl ifanc.<br><br>Tynnodd Tina sylw hefyd at banel y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar lysoedd teulu, a'r cyfle i fwydo i mewn iddo gan aelodau'r grŵp trawsbleidiol. Ar hyn o bryd nid oes cynrychiolaeth o Gymru ar y panel ac mae Cymorth i Fenywod Cymru yn gweithio i ddadlau dros hyn, a bydd yn bwydo tystiolaeth i mewn i hyn. . |
| **Trafodaeth:**<br><br>Cwestiynau o'r llawr<br><br>Gofynnodd Llamau a ellid rhannu templed o ymateb i'r adolygiad ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn i bobl fwydo i mewn iddo. Cadarnhaodd Tina y bydd hwn ar gael yn ogystal â grwpiau ffocws.<br><br>Tynnodd Llamau hefyd sylw at y ffaith y gellir cynnwys gwasanaethau arbenigol mewn achosion o asesiad proffesiynol ar gyfer cymhwystra cymorth cyfreithiol. Gofynnodd a ellid defnyddio rhywbeth tebyg yn achosion y llysoedd teulu, sef y gellir defnyddio'r sector arbenigol i ddarparu 'tystiolaeth'.<br><br>Gofynnwyd i Bethan Altman am hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r canllawiau cam-drin domestig. Eglurodd y bydd hyfforddiant rheolaeth drwy orfodaeth yn cael ei ddarparu a bydd hyn yn cael ei ffilmio i sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu cael yr hyfforddiant. |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

| |
|---|
| Cododd cwestiwn o'r llawr faterion yn ymwneud â phryder ynghylch teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr. Eglurodd Bethan nad yw'r garfan hon wedi'i henwi'n benodol yn y canllawiau, ond gallai hwn fod yn faes i'w ystyried wrth symud ymlaen.<br><br>Yn olaf, cadarnhaodd Nigel Brown o CAFCASS Cymru y bydd sesiynau codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal gydag asiantaethau partner dros yr haf. |
| **Camau i'w cymryd:**<br><br>Templed y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'w rannu er mwyn i aelodau allu cyflwyno tystiolaeth ar gyfer ymateb Cymorth i Fenywod Cymru.<br><br>Llythyr i'w ddrafftio oddi wrth y grŵp trawsbleidiol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn galw am gynrychiolaeth o Gymru ar y panel. |
| **Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod a daeth y cyfarfod i ben am 13:15** |